**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y Bil Tybaco a Fêps**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.

2. Cyflwynwyd y Bil Tybaco a Fêps ("y Bil") gerbron Senedd y DU, Tŷ'r Cyffredin ar 5 Tachwedd 2024. Gosodais femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar 20 Tachwedd 2024.

3. Cwblhaodd y Bil Gyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 26 Mawrth 2025. Mae'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn yn cynnwys gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2025. Mae fersiwn ddiweddaraf y Bil ar gael yn: https://bills.parliament.uk/bills/3879

## Amcanion Polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw cyflwyno mesurau i atal pobl rhag dechrau ysmygu yn y lle cyntaf a dod yn gaeth i gynhyrchion tybaco, yn ogystal â chyflwyno mesurau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n fepio. Bydd y mesurau craidd yn y Bil yn gwneud y canlynol:
    a. creu cenhedlaeth ddi-fwg, gan ddod â gwerthu cynhyrchion tybaco i ben yn raddol ledled y wlad a thorri'r cylch caethiwed ac anfantais drwy ei gwneud yn drosedd gwerthu cynhyrchion tybaco i unrhyw un a anwyd ar 1 Ionawr 2009 neu ar ôl hynny;
    b. galluogi rheoleiddio i gryfhau'r gwaharddiad presennol ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus er mwyn lleihau niweidiau ysmygu goddefol, yn arbennig o amgylch plant, teuluoedd a phobl sy'n agored i niwed;
    c. gwahardd yr arfer o frandio, hyrwyddo a hysbysebu fêps a chynhyrchion nicotin yn fwriadol i blant, er mwyn atal y genhedlaeth nesaf rhag mynd yn gaeth i nicotin;
    d. cryfhau gweithgarwch gorfodi er mwyn helpu i roi'r mesurau uchod ar waith a rhoi pwerau i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer manwerthu tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, fêps a chynhyrchion nicotin yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon ac estyn y cynllun cofrestru manwerthu yn yr Alban.
    e. mae'r Bil yn cyd-fynd â chymorth ehangach ar draws y gwasanaeth iechyd i helpu ysmygwyr i roi'r gorau iddi.

5. Mae'r Bil yn addasu, yn diwygio, yn estyn, ac yn ailddeddfu sawl mesur sydd eisoes ar waith i reoli tybaco a fepio er mwyn creu fframwaith

deddfwriaethol cyson. Bydd y newidiadau hyn yn helpu i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei chymhwyso’n gyson, yn cau bylchau ac yn hwyluso darllenadwyedd a’r camau gorfodi dilynol. Nod cyffredinol y Bil yw cysoni’r darpariaethau ledled y DU, gan adeiladu ar y fframweithiau deddfwriaethol presennol sy’n gymwys ledled y DU.

**Crynodeb o’r Bil**

6. Noddir y Bil gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

7. Mae wyth rhan i’r Bil. Mae Rhan 1 o’r Bil yn rhychwantu Cymru a Lloegr ac mae’n ymwneud â gwerthu a dosbarthu’r cynhyrchion o dan gyfyngiad. Mae Rhan 2 yn rhychwantu’r Alban ac mae Rhan 3 yn rhychwantu Gogledd Iwerddon. Mae Rhannau 4 a 5 yn rhychwantu’r DU gyfan. Mae Rhan 4 yn ymwneud â’r pwerau atafaelu a chadw mewn perthynas â snŵs ac ati. Mae Rhan 5 yn ymwneud â gofynion cynnyrch, safonau a gwybodaeth. Mae Rhan 6 yn rhychwantu’r DU gyfan ac yn ymwneud â gofynion hysbysebu a noddi. Mae Rhan 7 yn rhychwantu’r DU gyfan ac mae’n cynnwys darpariaethau ynglŷn â mannau di-fwg, mannau di-fêp a mannau lle y gwaherddir tybaco wedi’i gynhesu yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Rhan 8 o’r Bil yn rhychwantu’r DU gyfan ac mae’n cynnwys darpariaethau safonol sy’n helpu’r ddeddfwriaeth i weithredu’n effeithiol.

8. Mae darpariaethau allweddol y Bil, i’r graddau y maent yn rhychwantu Cymru, yn cwmpasu meysydd cynhyrchion tybaco a phapurau sigaréts, cynhyrchion ysmygu llysieuol, snŵs, cynhyrchion fepio a nicotin, hysbysebu a noddi, trwyddedu manwerthu, a gorfodi. Yn ogystal â darpariaethau newydd, mae’r Bil hefyd yn anelu at ailddeddfu a chydgrynhoi deddfwriaeth sy’n bodoli eisoes mewn perthynas â thybaco a chynhyrchion fepio.

**Y diweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

9. Mae’r Bil ar hyn o bryd yn ail Gyfnod Darllen Tŷ’r Arglwyddi. Ar 7 Ionawr, yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan randdeiliaid, gan gynnwys Prif Swyddog Meddygol Cymru. Mae’r cydweithio sydd ar waith rhwng Llywodraeth Cymru, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar y Bil a’i amcanion polisi yn parhau i fod yn gryf ac yn gyson.

10. Yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin, cyflwynwyd pedwar gwelliant gan y llywodraeth (dau mewn perthynas â Chymru (gwelliannau 15 a 16), un mewn perthynas â Gogledd Iwerddon (gwelliant 98) ac un mewn perthynas â’r Alban (gwelliant 1)). Yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ’r Cyffredin, ni chafodd yr holl welliannau anllywodraethol a gynigiwyd ar gyfer y Bil eu derbyn. Nid oedd gwelliannau 15 a 16 mewn perthynas â Chymru yn

bodloni prawf Rheol Sefydlog 29 ac felly nid oedd angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol ar eu cyfer.

11. Ar 18 Mawrth, yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, cyflwynwyd 36 o welliannau'r llywodraeth. Manylir isod ar y gwelliannau hynny sy'n bodloni'r prawf Rheol Sefydlog 29 ac sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Ar 18 Mawrth 2025, yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, gosododd Llywodraeth y DU welliannau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer o dan Reol Sefydlog 29. Maent yn mynd i'r afael â materion a nodwyd yn ystod hynt y Bil ac yn ymwneud â darpariaethau sy'n ymwneud â'r canlynol:
    a. gwirio oedran mewn perthynas â chynhyrchion tybaco a fepio (cymalau 1, 10, 46, 48);
    b. peiriannau gwerthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin (cymalau 3 a 12);
    c. arddangos dyfeisiau sy'n gysylltiedig â thybaco mewn siopau neu leoedd ar-lein (cymalau 14 a 48).

**<u>Gwirio oedran mewn perthynas â chynhyrchion tybaco, fepio ac ati</u>**

<u>Cymal 1 (Gwelliannau 47, 48, 49): Gwirio oedran – cynhyrchion tybaco</u>

13. Mae cymal 1 yn cyflwyno cyfyngiad newydd ar yr oedran gwerthu ar gyfer cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol a phapurau sigaréts. Mae'r cymal hwn yn darparu ei bod yn amddiffyniad i rywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni'r drosedd i brofi y dangoswyd iddo yr hyn a oedd yn ymddangos yn ddogfen adnabod (megis pasbort neu drwydded yrru'r DU) a oedd yn perthyn i'r prynwr a bod y dyddiad geni a ddangoswyd ar y ddogfen honno cyn 1 Ionawr 2009, neu ei fod fel arall wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd.

14. O ran yr amddiffyniad amgen cyntaf, mae'r gwelliannau yn dileu'r rhestr o ddogfennau adnabod ffisegol. Yn hytrach, mae'r cymal yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi'r camau y caiff manwerthwr eu cymryd i elwa ar yr amddiffyniad. Bydd hyn yn galluogi rheoliadau i bennu pob math o ddulliau adnabod a ganiateir drwy is-ddeddfwriaeth. Y diben yw darparu ar gyfer dulliau gwirio digidol yn ogystal â'r dulliau papur traddodiadol.

15. Bydd y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol. Bydd pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol yn ddarostyngedig i gydsyniad Gweinidogion Cymru ar faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

16. Gan fod y pŵer newydd yn darparu ar gyfer ystod ehangach o ddulliau adnabod posibl, gan gynnwys y rhai a allai fod ar gael ar gyfer trafodion o

bell neu ar-lein, caiff y pŵer i sefydlu'r dulliau adnabod a ganiateir ei neilltuo i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb yn y drefn reoleiddiol ar gyfer y cyhoedd a busnesau drwy hwyluso eu dealltwriaeth o'r dulliau adnabod a ganiateir sydd ar gael, a'r camau sy'n ofynnol i wirio oedran person. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o orfodi'r troseddau yng Nghymru a Lloegr mewn modd cyson ac yn atal gwahaniaeth rhwng amddiffynfeydd yng Nghymru a Lloegr.

Cymal 10 (Gwelliannau 51, 52, 53): Gwirio oedran - fêps a chynhyrchion nicotin

17. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn drosedd i werthu cynhyrchion fepio neu nicotin i berson o dan 18 oed. Mae'r cymal yn darparu ei fod yn amddiffyniad i rywun sy'n cael ei gyhuddo o gyflawni trosedd o dan y cymal hwn i brofi y dangoswyd iddo yr hyn a oedd yn ymddangos yn ddogfen adnabod (megis pasbort neu Drwydded Yrru'r DU) a oedd yn perthyn i'r prynwr a'i bod yn cadarnhau bod y cwsmer yn 18 oed neu'n hŷn, neu ei fod fel arall wedi cymryd pob cam rhesymol i osgoi cyflawni'r drosedd.

18. Mae natur a diben y gwelliannau i gymal 10 yr un fath ag ar gyfer y gwelliannau i gymal 1 (gweler uchod).

Cymal 46 (Gwelliant 61): Gwirio oedran - cynhyrchion tybaco, fêps a nicotin

19. Mae cymal 46 yn darparu pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru fel y bo'n briodol i wneud rheoliadau i ddiwygio'r diffiniad o ddogfen adnabod ("identity document") yng nghymal 1 a chymal 10.

20. Mae'r gwelliant yn dileu cymal 46. Mae hyn yn ganlyniadol i'r gwelliannau i gymalau 1 a 10 oherwydd y caiff y rhestrau o ddogfennau adnabod ffisegol eu dileu. Caiff hyn ei ddisodli gan bŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol nodi'r camau i'w cymryd i wirio oedran (gweler uchod).

Cymal 48 (Gwelliant 63): Dehongli

21. Mae cymal 48 yn darparu'r diffiniadau ar gyfer Rhan 1. Mae'r gwelliant yn dileu'r diffiniad o drwydded yrru'r DU ("UK driving licence"). Mae'r gwelliant hwn yn ganlyniadol i'r gwelliannau i gymalau 1 a 10 (gweler uchod).

**Peiriannau gwerthu cynhyrchion tybaco, fepio a nicotin**

Cymal 3 (Gwelliant 50: Peiriannau gwerthu tybaco)

22. Mae cymal 3 yn nodi ei bod yn drosedd os yw person yn rheoli mangre lle mae peiriant gwerthu tybaco ar gael i'w ddefnyddio. Mae peiriant gwerthu tybaco yn beiriant awtomatig y gellir prynu cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol neu bapurau sigaréts ohono. Mae'r

gwelliant yn diwygio'r diffiniad o beiriant gwerthu tybaco (“tobacco vending machine”) i gynnwys y cynhyrchion o dan gyfyngiad a ddosberthir o beiriant mewn cysylltiad â gwerthiant. Mae hyn yn estyn y gwaharddiadau ar beiriannau gwerthu i gynnwys peiriannau lle y caiff cynhyrchion eu dosbarthu mewn cysylltiad â gwerthiant. Enghraifft o hyn fyddai peiriant sy’n dosbarthu cynnyrch ar ôl mewnbynnu cod sydd wedi’i nodi ar dderbynneb gwerthiant a gafwyd mewn man arall, er enghraifft desg dalu neu beiriant hunandalu.

Cymal 12 (Gwelliannau 54 a 55): Peiriannau gwerthu cynhyrchion fepio / nicotin)

23. Mae cymal 12 yn nodi ei bod yn drosedd os yw person yn rheoli mangre lle mae peiriant gwerthu cynhyrchion fepio neu nicotin ar gael i'w ddefnyddio. Mae peiriant gwerthu cynhyrchion fepio neu nicotin yn beiriant awtomatig y gellir prynu’r cynhyrchion hynny ohono. Mae natur a diben y gwelliannau i gymal 12 yr un fath ag ar gyfer y gwelliannau i gymal 3 (gweler uchod).

**Arddangos dyfeisiau sy’n gysylltiedig â thybaco mewn siopau neu leoedd ar-lein**

Cymal 14 (Gwelliant 57): Arddangosfeydd manwerthu – dyfeisiau sy’n gysylltiedig â thybaco

24. Mae cymal 14 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i reoleiddio'r modd y mae manwerthwyr yn arddangos cynhyrchion tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin a’u prisiau, yn ogystal â’r modd yr arddangosir pecynwaith manwerthu gwag, yng Nghymru.

25. Mae’r gwelliant yn estyn y cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys gan gymal 14 i gynnwys dyfeisiau sy’n gysylltiedig â thybaco. Bydd hyn yn galluogi’r cyfyngiadau a gyflwynir gan y rheoliadau yng nghymal 14 i gynnwys arddangos y dyfeisiau hyn mewn siopau neu leoedd ar-lein. Gall enghreifftiau o’r dyfeisiau hyn gynnwys pethau fel dyfeisiau tybaco wedi'i gynhesu a phibellau a bongs y gellir defnyddio tybaco ohonynt.

Cymal 48 (Gwelliant 62): Dehongli – dyfeisiau sy’n gysylltiedig â thybaco

26. Mae cymal 48 yn darparu’r diffiniadau ar gyfer Rhan 1. Mae’r gwelliant yn ychwanegu diffiniad o ddyfais sy'n gysylltiedig â thybaco (“tobacco related device”). Mae’r gwelliant hwn yn ganlyniadol i'r gwelliant i gymal 14.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

27. Mae Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad ar gyfer y gwelliannau a restrir uchod i gymalau 1, 3, 10, 12, 14, 46 ac 48, gan ei bod wedi penderfynu eu bod yn sbarduno'r broses memorandwm cydsyniad

deddfwriaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU.

28. Nodwyd bod cymalau 1, 3, 10, 12, 14, 46 a 48 i gyd yn sbarduno’r broses memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a osodwyd ar 20 Tachwedd 2024 (gweler paragraffau 179 i 181). Rydym yn cyfeirio at yr esboniadau ynghylch y cymalau hynny yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol. Mae cymal 46 bellach wedi'i ddileu gan y gwelliannau. Mae cymalau 1, 3, 10, 12, 14 a 48, fel y cânt eu diweddaru yn sgil y gwelliannau a restrir uchod, yn parhau i wneud darpariaeth berthnasol mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig. Diben y cymalau o hyd yw diogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

## Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Tybaco a Fêps

29. Bydd y gwelliannau a osodir gan Lywodraeth y DU yn cryfhau’r Bil mewn ffordd briodol sy’n mynd i’r afael â materion polisi neu fylchau posibl, gan sicrhau y caiff nodau iechyd y cyhoedd y darpariaethau eu cyflawni. O ran y gwelliannau yn ymwneud â'r troseddau ynghylch peiriannau gwerthu, mae’r rhain yn ei gwneud yn glir y caiff y gwaharddiad ar beiriannau gwerthu tybaco a chynhyrchion fepio a nicotin hefyd ei estyn i beiriannau sydd dim ond yn dosbarthu cynhyrchion (ond mae’r gwerthiant yn digwydd ar wahân) i sicrhau bod y mathau hyn o beiriannau yn cael eu cynnwys gan ddarpariaethau'r Bil. Mae’r gwelliannau mewn perthynas â’r dulliau ar gyfer gwirio oedran yn caniatáu i reoliadau bennu'r camau y caiff gwerthwr eu cymryd i elwa ar yr amddiffynfeydd yng nghymalau 1(2) a 10(2) o’r Bil. Ar hyn o bryd, mae’r Bil yn canolbwyntio ar ddogfennau adnabod papur. Diben y pŵer newydd yw darparu ar gyfer dulliau gwirio digidol yn ogystal â dulliau sy’n ymwneud â dogfennau papur. Bydd y gwelliannau a wneir i’r Bil mewn perthynas ag arddangos tybaco, cynhyrchion ysmygu llysieuol, papurau sigaréts, a chynhyrchion nicotin yn sicrhau bod pŵer gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yng nghymal 14 yn estyn i ddyfeisiau sy’n gysylltiedig â thybaco (a fyddai’n cynnwys pethau fel dyfeisiau tybaco wedi'i gynhesu a phibellau a bongs y gellir defnyddio tybaco ohonynt) ac yn sicrhau bod y dyfeisiau hyn yn cael eu cynnwys gan ddarpariaethau'r Bil.

30. Mae’r rhesymeg a amlinellir yn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol blaenorol ar gyfer y Bil hwn o ran pam y mae’n briodol i ddeddfwriaeth y DU wneud darpariaeth i Gymru yn y Bil hwn yn parhau i fod yn berthnasol ond, er hwylustod, rwy'n ailddatgan fy nadleuon yma.

31. Bydd y Bil yn darparu newidiadau deddfwriaethol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnig cyfle i gyflawni cenhedlaeth ddi-fwg ac i amddiffyn plant rhag cynhyrchion fepio a chynhyrchion nicotin eraill. Mae’r rhain yn amcanion polisi allweddol Llywodraeth Cymru a byddant yn achub miloedd o fywydau, yn lleihau’r pwysau ar GIG Cymru ac yn arbed

biliynau o bunnoedd i economi'r DU. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ledled y DU yn dangos cefnogaeth eithriadol i'r mesurau.

32. Gan ystyried natur y broses rheoleiddio a gorfodi mewn perthynas â thybaco, fêps, tybaco llysieuol a chynhyrchion nicotin, a'r gofynion o ran hysbysebu a noddi cynhyrchion, ystyrir mai dull gweithredu cydweithredol rhwng y pedair gwlad yw'r ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol o weithredu i Gymru a'r DU. Fel man cychwyn, dylid sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio, cyn belled ag y bo'n bosibl, yn unfath ledled y DU neu o leiaf ledled Prydain Fawr. At hynny, hyd y gellir, dylai gael ei chyflwyno ar yr un pryd. Fel arall, mae'n bosibl y bydd cynhyrchion sy'n dderbyniol mewn un rhan o'r DU yn gallu dod i mewn i ran arall o'r DU lle na fyddant yn bodloni'r rheoliadau o bosibl.

33. Mae'r Bil yn golygu y gellir cyflawni amcanion polisi mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau cydlyniaeth a chysondeb ledled y DU. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfundrefn reoleiddio unigol i'r DU gyfan fel ffordd o sicrhau system gydlynol y gellir ei gweithredu ledled y DU gyfan mewn perthynas â'r cynhyrchion hyn. Mae dull gweithredu tebyg wrthi'n cael ei fabwysiadu mewn perthynas â chyflwyno'r gwaharddiad ar fêps untro o 1 Mehefin 2025 ymlaen, gan ystyried manteision cydnabyddedig cysoni'r broses o gyflwyno'r gofynion i fyd busnes, defnyddwyr yn ogystal â'r awdurdodau gorfodi.

**Goblygiadau ariannol**

34. Nid yw'r gwelliannau'n golygu unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Casgliad**

35. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn gan y DU gan fod angen dull gweithredu ledled y DU ar gyfer ymdrin â'r cynhyrchion hyn a bydd yn sicrhau cyfundrefn reoleiddiol gyson ac effeithiol ledled y DU. Rwy'n cefnogi'n gryf gynigion polisi y Bil ac rwyf felly'n argymell bod y Senedd yn cefnogi'r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Sarah Murphy AS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Ebrill 2025**